

Gyrfaoedd a'r byd gwaith:
fframwaith i bobl ifanc
11 i 19 oed yng Nghymru



Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru

Cynulleidfa	Athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; colegau a darparwyr dysgu eraill sydd yn gweithio gyda dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon; undebau athrawon a chyrrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gyrfaoedd a'r byd gwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r pwerau yn Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.
Camau i'w cymryd	O 1 Awst 2008, dylai athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, colegau a darparwyr dysgu eraill seilio eu darpariaeth gyrfaoedd a'r byd gwaith ar y ddogfen hon.
Gwybodaeth bellach	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14 Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru Llawr 10, Tŷ Southgate Wood Street Caerdydd CF10 1EW Ffôn: 0800 083 6003 Ffacs: 029 2037 5496 e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Ar gael drwy gysylltu: Ffôn: 029 2037 5427 Ffacs: 029 2037 5494 Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.cymru.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cynnwys pob dysgwr	4
Sgiliau ar draws y cwricwlwm	6
Dysgu ar draws y cwricwlwm	8
Defnyddio'r fframwaith	10
Agweddau a gwerthoedd	13
Deilliannau dysgu	
Cyfnod Allweddol 3	14
Cyfnod Allweddol 4	16
Ôl-16	18

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyfuno ac yn diwygio'r fframweithiau blaenorol ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith, ac addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Fel y cyfryw, mae'n rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pawb sy'n 11 i 16 oed. Mae hefyd yn rhan o ofynion Craidd Dysgu Llwybrau Dysgu 14–19. Dylid defnyddio'r fframwaith ar y cyd â'r cyfarwyddyd anstatudol a fydd yn cefnogi dealltwriaeth o'r ffordd y gellid bodloni'r gofynion yn ymarferol.

Bwriad y fframwaith hwn yw cynnig gwell eglurder a hydrinedd na'i ragflaenwyr. Mae hefyd yn anelu at symud y ffocws yn fwy cadarn tuag at sicrhau bod pobl ifanc yn barod i gymryd eu safle mewn byd gwaith sy'n cyflym newid yn yr economi fyd-eang.

Yn yr unfed ganrif ar hugain, mae pobl wedi dechrau deall effaith newidiadau mewn arferion gwaith. Mae galw am fwy o hyblygrwydd mewn cysyniadau 'gyrfa', galw i ddysgu fod yn barhaus a gydol oes, a'r angen i addasu i dechnolegau sy'n newid. Yn hytrach na helpu pobl ifanc i ddod o hyd i'r swydd 'gywir', mae'n rhaid i ysgolion, colegau a hyfforddwyr rhoi'r sgiliau i bobl ifanc i reoli eu bywyd gwaith mewn dyfodol sy'n debygol o gynnwys llawer o newidiadau nad oes modd eu dychmygu ar hyn o bryd.

Mae gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG) yn ymwneud â'r perthnasau rhwng pobl ifanc, eu dysgu a'r byd gwaith. Dylai helpu dysgwyr i:

- archwilio'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu gydol oes
- cynllunio a rheoli eu llwybr trwy ystod o gyfleoedd ym myd dysgu a byd gwaith
- gwneud dewisiadau gyrfa effeithiol
- bod yn entrepreneuraid
- ffynnu mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith
- dangos cymhelliant, gosod nodau tymor hir a gorchfygu rhwystrau
- gweld bod eu hastudiaethau yn berthnasol i'w bywyd a'u gwaith
- datblygu Sgiliau Allweddol a sgiliau eraill y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt
- paratoi ar gyfer sialensiau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd fel oedolyn.

Pan gaiff ei gyflwyno'n dda, bydd GBG yn cynnig i bobl ifanc y math o fewnwelediad sy'n cynhyrchu realaeth a dyhead o ran eu bywyd yn y dyfodol. Yr unig fodd i gyflawni hyn yn effeithiol yw trwy raglen wedi'i chynllunio sy'n cynnwys ystod eang o brofiadau addysgu a dysgu a chyd-destunau ynghyd â chyfraniadau gan amrywiaeth o bartneriaid. Dylai'r rhain gynnwys y profiadau uniongyrchol gorau posibl o'r byd gwaith, wedi'u cefnogi gan gyfleoedd am gyngor ac arweiniad unigol.

Mae'n werth egluro o'r cychwyn nad byd cyflogaeth â thâl yn unig yw'r byd gwaith ond bod cyfleoedd i wirfoddoli a chyfranogi yn y gymuned yn elfen bwysig wrth ddatblygu sgiliau cysylltiedig â gwaith.

Bydd pobl ifanc yn ychwanegu at gyfoeth Cymru mewn ffyrdd niferus ac amrywiol. Bydd rhai yn cyfrannu eu sgiliau entrepreneuriaidd at gwmni presennol a bydd rhai'n dechrau eu busnesau eu hunain. Mae'r fframwaith newydd yn cydnabod yn benodol y bydd pobl ifanc yn gyflogwyr ac yn hunangyflogedig, yn ogystal â gweithwyr cyflogedig. Dyma'r rheswm y mae entrepreneuriaeth bellach yn rhan o'r ystod i'w chynnwys ym mhob cyfnod yn hytrach nag un o sawl cyfle dysgu dymunol.

Ni chyflawnir anghenion y fframwaith hwn drwy addysgu yn y dosbarth yn unig. Bydd angen i'r sawl sy'n cydlynu GBG sicrhau bod ystod eang o bartneriaid yn cymryd rhan wrth gyflwyno'r maes cwricwlwm hwn. Bydd y rhain yn cynnwys athrawon pwnc/tiworiaid yn gwneud eu maes eu hunain o'r cwricwlwm yn berthnasol ac yn ddiddorol drwy ddefnyddio'r byd gwaith yn gyd-destun ar gyfer dysgu. Yn yr un modd, bydd yn cynnwys Gyrfa Cymru, cyflogwyr, entrepreneuriaid, cynghorwyr, rhieni, hyfforddwyr a grwpiau cymunedol yn cynnig cyfleoedd perthnasol sy'n gysylltiedig â'u meysydd arbenigedd eu hunain.

Mae gan y math hwn o ddisgwyliad oblygiadau clir o ran darparu'r adnoddau i sicrhau darpariaeth o ansawdd a sicrhau bod y maes hwn yn y cwricwlwm yn cael ei gynrychioli'n effeithiol ar lefel uwch reoli. Mae goreuon busnes Cymru cystal â'r gorau yn y byd. Gwaith y rheiny sy'n hyfforddi, addysgu neu ddysgu yw helpu pob person ifanc i gyflawni hyd eithaf ei (g)allu.

Cynnwys pob dysgwr

Cyfrifoldebau ysgolion, colegau a darparwyr dysgu eraill

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gweithredu'r Hawliau*, rhaid sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol yn gosod ddyletswydd bellach ar ddarparwyr dysgu yng Nghymru tuag at y dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, sef cael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dylai darparwyr dysgu feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylent gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai darparwyr dysgu ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ddarparwyr dysgu weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i ddarparwyr dysgu gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff dysgwyr brofiadau perthnasol a hygyrch.

Ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn enwedig, dylent:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai darparwyr dysgu geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai darparwyr dysgu gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylent ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n cyfateb â'u gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylent hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr wrth ddysgu.

Hawliau dysgwyr

Dylai darparwyr dysgu yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu dysgu, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau, gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r darparwyr dysgu addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu. Dylai hefyd sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. I ehangu eu dysgu, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall darparwyr dysgu ddefnyddio cynnwys o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol o fewn y cwricwlwm. Dylent ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses ddysgu.

Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai darparwyr dysgu gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai darparwyr dysgu ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymhell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3–19 oed.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladau ar y sgiliau y maent wedi eu datblygu mewn cyfnodau cynharach. Mae'r rhain yn cynnwys meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif. Dylent ddatblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd mewn sgiliau o ran eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai'r fframwaith ddarparu'r sail ar gyfer gwneud cynnydd effeithiol yn y sgiliau hyn, y gellir eu asesu drwy ystod o gymwysterau, gan gynnwys Sgiliau Allweddol.

Datblygu meddwl



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn **gyrfaoedd a'r byd gwaith**, bydd y dysgwyr yn archwilio, cynllunio, datblygu a myfyrio ynghylch syniadau a gwybodaeth, gan ymateb i eraill yn ogystal ag ymateb i'w gwaith eu hunain.

Datblygu cyfathrebu



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn **gyrfaoedd a'r byd gwaith**, bydd y dysgwyr yn cyfathrebu mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys siarad, gwranddo, darllen, ysgrifennu a'r ffordd y maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Byddant yn datblygu'r sgiliau hyn drwy ymarfer gyda phobl yn yr amgylchedd dysgu uniongyrchol a'r tu hwnt. Cefnogir hyn gan eu hadolygiad o'u gwaith eu hunain a gwaith eraill. Wrth wneud hyn, byddant yn dysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol mewn ystod o sefyllfaoedd.

Datblygu TGCh



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod o offer a meddalwedd.

Mewn **gyrfaoedd a'r byd gwaith**, bydd y dysgwyr yn cymhwyso technoleg i ymchwilio ac i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o yrfaoedd a materion cysylltiedig â gwaith. Byddant yn ei defnyddio hefyd i gofnodi a chyflwyno eu gwaith yn briodol.

Datblygu rhif



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn **gyrfaoedd a'r byd gwaith**, bydd y dysgwyr yn canfod, archwilio a dadansoddi data sy'n berthnasol i'w hanghenion yn ddarpar weithwyr cyflogedig/cyflogwyr y dyfodol.

Dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnod Allweddol 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd mewn cyfnodau cynharach, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai gwybodaeth a dealltwriaeth gael eu datblygu a'u cymhwysu o fewn cyd-destunau eu llwybrau 14–19 unigol gan gynnwys y Craidd Dysgu.

Y Cwricwlwm Cymreig (7–14) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14–19)



Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **gyrfaoedd a'r byd gwaith** yn cyfrannu'n benodol at ddealltwriaeth economaidd drwy ymchwilio i gyfleoedd dysgu, gyrfaoedd a chyflogaeth. Bydd natur newidiol y cyfleoedd hynny yn aml hefyd yn amlygu materion ieithyddol, hanesyddol ac amgylcheddol yn yr ardal ac ymhellach i ffwrdd.

Addysg bersonol a chymdeithasol



Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; fod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **gyrfaoedd a'r byd gwaith** yn cyfrannu at hyn drwy gysylltiadau â'r byd gwaith a thrwy herio'r stereoteip. Bydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o ryngweithio cymdeithasol drwy weithio gydag eraill.

Gyrfaoedd a'r byd gwaith



Dylai dysgwyr 11–19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **gyrfaoedd a'r byd gwaith** yn gweithio'n fwyaf effeithiol pan fydd yn amlwg ar draws profiad dysgu cyfan y person ifanc.

Defnyddio'r fframwaith

Mae'r fframwaith hwn yn ymdrin â phobl ifanc 11 i 19 oed. Sut bynnag, gall dealltwriaeth o'r byd gwaith ddechrau ar unrhyw oed. Yn benodol, mae deilliannau dysgu Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cynnwys gofyniad i ddisgyblion ystyried yr ystod o swyddi a gaiff eu cyflawni gan bobl yn y gymuned. Datblygwyd y fframweithiau ar gyfer GBG ac ABCh ochr yn ochr er mwyn lleihau gorgyffwrdd cymaint â phosibl ac mae'n ddefnyddiol eu hystyried gyda'i gilydd. Os cânt eu rheoli neu eu haddysgu ar wahân, dylid deall y byddant ond yn gweithio'n effeithiol os cânt eu trin yn bartneriaid agos.

Caiff y fframwaith ei hun ei rannu'n dair elfen:

- agweddau a gwerthoedd
- sgiliau
- ystod.

Agweddau a gwerthoedd

Roedd llawer o'r trafodaethau â chyflogwyr ac addysgwyr wrth ddatblygu'r ddogfen hon yn pwysleisio pa mor bwysig yw'r ffordd y mae pobl ifanc yn ystyried gwaith. O ganlyniad i hyn, mae'r ddogfen yn nodi agweddau a gwerthoedd a fydd yn cyfrannu at gyflogadwyedd rhywun. Nid oes unrhyw ddiffiniadau caeth o'r hyn sy'n cynnwys agweddau neu werthoedd. Mewn cyd-destunau eraill, gellir disgrifio rhai o'r 'agweddau' hyn yn 'dueddiadau'. Pa bynnag enw sydd ynghlwm, mae yna gydsyniad fod angen i'r hyn a ddisgrifir yma fod yn sail i addysg a hyfforddiant. Er enghraifft, mae dysgwyr dawnus heb hyblygrwydd neu frwdfrydedd yn debygol o gael trafferth i gael swydd briodol. Mae'r elfen hon o'r fframwaith yn berthnasol ar draws yr ystod oedran gyfan.

Sgiliau

Ym mhob cyfnod, manylir y deilliannau mwyaf tebygol o ran sgiliau. Bydd llawer o sgiliau yn debyg ar draws y cyfnodau ond â chyd-destunau cynyddol heriol a chymhleth. Bydd y sgiliau'n llywio gwaith paratoi'r deunyddiau/gweithgareddau ac unrhyw adolygiad o'r cynnwys a gyflawnir mewn rhaglen benodol. Bydd llawer o sefyllfaoedd yn cynnig cyfleoedd i ymarfer sawl sgil yn ystod un gweithgaredd.

Ystod

Mae'r datganiadau ystod ar gyfer pob cyfnod yn arwydd o'r cyd-destunau y gellir datblygu sgiliau, agweddau a gwerthoedd ynddynt a byddant yn llywio cynnwys y rhaglen a ddarperir gan ysgolion, colegau a hyfforddwyr. Maent yn cael eu hisrannu'n bum rhan.

- **Cyflawniad personol**

Mae angen i ddysgwyr wybod ble y mae ar hyn o bryd a ble y mae'n gobeithio bod yn y dyfodol.

- **Ceisio gwybodaeth**

Y man cychwyn ar gyfer symud ymlaen yw darganfod, yn gyntaf, beth sydd ar gael yn realistig yn y byd gwaith. Heb y cyfnod hwn, gellid gwneud penderfyniadau anwybodus, camarweiniol nad ydynt yn gyfoes.

- **Deall y byd gwaith**

Nid ymarfer damcaniaethol syml yw'r broses o ddarganfod. Un peth yw gwybod beth sydd 'ar gael' ar bapur; rhywbeth arall yn llwyr yw gwybod sut deimlad yw gweithio mewn swyddi a gyrfaoedd penodol. Mae penderfyniadau gyrfaol da yn seiliedig ar hunanymwybyddiaeth a gwybodaeth wirioneddol am y byd gwaith: y da a'r drwg, y diddorol a'r diflas. Bydd angen hefyd ar ddysgwyr i fod yn hyblyg ac yn fentrus pan fyddant yn weithwyr cyflogedig, yn gyflogwyr neu'n hunangyflogedig yn y pen draw.

- **Arweiniad**

Prin y mae rhywun yn penderfynu pa lwybrau i'w dilyn mewn bywyd ar ei ben ei hun ac un o elfennau pwysig gyrfaoedd a'r byd gwaith yw arweiniad a chynghor eraill. Mae'r fframwaith yn annog ceisio a rhoi cynghor wrth gydnabod mai'r sawl sy'n dewis y llwybr dysgu neu'r llwybr gyrfa sy'n gwneud y penderfyniad.

- **Gwneud a gweithredu penderfyniadau**

Gall dewis gymryd eiliad neu gall deimlo fel petai'n cymryd amser diderfyn i'w gyrraedd. Ni waeth pa mor fyr neu hir yw'r broses, nid yw penderfyniadau yn unig yn ddigon. Mae'n rhaid i bobl ifanc allu cyflwyno eu hunain mewn modd cadarnhaol a chredadwy er mwyn argyhoeddi cyrff, megis colegau, prifysgolion, hyfforddwyr, cyflogwyr a sefydliadau ariannol, ei bod yn werth rhoi cyfle iddynt.



Agweddau a gwerthoedd (11–19)

Yn sail i unrhyw baratodau ar gyfer y byd gwaith y mae'r angen am agweddau cadarnhaol fel bydd cyflogwyr a chwsmeriaid eisiau'r hyn sydd gan rywun i'w gynnig. Dyma broses barhaus sy'n dechrau yn y blynyddoedd cynharaf ac yn parhau drwy gydol oes.

Bydd gan y rhan fwyaf o bobl farnau ychydig yn wahanol am yr agweddau a'r gwerthoedd sydd bwysicaf yn y gweithle. Bydd gwahaniaeth barn hefyd am yr hyn sy'n agwedd yn y bôn a'r hyn y mae'n well ei ddisgrifio'n sgil. Fodd bynnag, dyma ystod o briodoleddau y mae cyflogwyr, entrepreneuriaid, tiwtoriaid derbyn ac arbenigwyr gyrfa yn ystyried yn gyffredinol eu bod yn bwysig:

- gonestrwydd
- dibynadwyedd/didwylledd
- agweddau defnyddiol a pharchus at eraill
- hyblygrwydd
- ymwybyddiaeth am anghenion pobl eraill
- parodrwydd i weithio mewn tîm
- parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb/y cam cyntaf
- brwdfrydedd/hunan gymhelliant
- parodrwydd i fod yn arloesol
- hunanddisgyblaeth
- dyfalbarhad
- parodrwydd i oresgyn ofn
- parodrwydd i barhau i ddysgu.

Prin yw'r dystiolaeth y gellir addysgu'r priodoleddau hyn mewn unrhyw ystyr ddidactig ond mae digonedd o enghreifftiau o'r agweddau hyn yn cael eu magu pan fo pobl ifanc yn ymgymryd â gweithgareddau perthnasol, diddorol ac ymarferol mewn hinsawdd sy'n annog cydweithrediad a hunan-barch. Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr asesu cyflawniad myfyrwyr o ran eu hagweddau a'u gwerthoedd. Mewn prosesau hunanasesu sefydliadau, efallai yr hoffai darparwyr ystyried a yw gweithgareddau yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu'r mathau hyn o agweddau a gwerthoedd.



Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

1. weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol
2. gwranddo'n astud ac ymateb yn ddefnyddiol
3. cael gafael ar ystod briodol o ffynonellau ar gyfer cymorth, cefnogaeth a chynghor o fewn cyd-destunau wedi'u diffinio
4. lleoli, dewis a chrynhoi gwybodaeth, gan nodi pwyntiau allweddol
5. dewis a dehongli data am gyfleoedd dysgu a gyrfa



6. defnyddio TGCh i ganfod, gwirio a defnyddio gwybodaeth berthnasol
7. ystyried syniadau a gwerthoedd eu hunain a phobl eraill am ddysgu, gyrfaedd a'r byd gwaith i lywio barnau a phenderfyniadau
8. datblygu ystod o syniadau i ddatrys problemau
9. cyfathrebu'n glir yn Gymraeg neu Saesneg, fel bo'n briodol, am yrfaedd a'r byd gwaith



Ystod

Dylai dysgwyr allu datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwerthoedd drwy ystod o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt:

Cyflawniad personol

1. ddisgrifio eu galluoedd, eu diddordebau a'u sgiliau
2. rhestru eu cyflawniadau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol

Ceisio gwybodaeth

3. defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i chwilio am wybodaeth am ystod o gyfleoedd gwaith a dysgu
4. cael gwybod am y gwahanol fathau o waith sydd ar gael a sut y mae patrymau gwaith yn newid

Deall y byd gwaith

5. cydnabod a herio'r stereoteipiau sy'n cyfyngu pobl wrth ddewis eu gwaith a'u gyrfaedd
6. archwilio priodoleddau entrepreneuriaid a rôl menter wrth greu cyfoeth
7. dysgu am y rhinweddau personol sy'n bwysig i gyflogwyr

10. trefnu gwybodaeth amdanynt eu hunain yn glir ac yn gadarnhaol
11. cynllunio, cytuno ac adolygu targedau
12. rheoli amser o fewn strwythurau wedi'u gosod
13. addasu i sefyllfaoedd newydd
14. gallu cymhwyso dysgu i ystod o sefyllfaoedd.

Arweiniad

8. nodi'r bobl sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad gwybodus am ddewisiadau pwnc/syniadau gyrfa a deall goblygiadau'r llwybrau posibl o'u blaenau
9. nodi unrhyw rwystrau rhag cyflawni cynlluniau'r dyfodol a phenderfynu sut y gellid eu goresgyn



Gwneud a gweithredu penderfyniadau

10. defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod amdanynt eu hunain, dysgu a gwaith mewn penderfyniadau am lwybrau Cyfnod Allweddol 4 unigol
11. gallu egluro eu dewisiadau arfaethedig i'w cyfoedion ac i oedolion priodol.



Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

1. weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol yn yr ystafell ddosbarth a'r tu hwnt
2. gwranddo'n astud ac ymateb yn ddefnyddiol, gan nodi cryfderau a gwendidau safbwyntiau
3. cael gafael ar ystod eang o ffynonellau ar gyfer cymorth, cefnogaeth a chynghor
4. lleoli, dewis a nodi pwyntiau allweddol o ystod o wybodaeth, gan gynnwys trywyddau rhesymu
5. dewis, cymharu a dehongli data sy'n berthnasol i'w hanghenion eu hunain 
6. defnyddio TGCh i ddod o hyd i wybodaeth sy'n gywir ac yn berthnasol am ystod o bwrpasau 
7. ystyried eu safbwyntiau eu hunain a phobl eraill am ddysgu, gyrfaoedd a'r byd gwaith er mwyn llywio barnau a phenderfyniadau
8. ceisio a gwerthuso atebion arloesol i broblemau
9. cyfathrebu'n ddealladwy yn Gymraeg neu Saesneg, fel bo'n briodol, am yrfaoedd a'r byd gwaith
10. cyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain yn effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd


Ystod

Dylai dysgwyr allu datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwerthoedd drwy ystod o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt:

Cyflawniad personol

1. ddatblygu curriculum vitae (CV) yn seiliedig ar eu cyflawniadau, eu galluoedd, eu diddordebau a'u sgiliau

Ceisio gwybodaeth

2. defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i ganfod gwybodaeth am eu syniadau gyrfa, gan wahaniaethu rhwng gwybodaeth a deunydd hyrwyddo
3. archwilio cyfleoedd a thueddiadau cyflogaeth a dysgu yn lleol ac ymhellach i ffwrdd 

Deall y byd gwaith

4. archwilio goblygiadau stereoteipio mewn cyflogaeth a hyfforddiant, gan gydnabod buddiannau agwedd gadarnhaol at wahaniaeth ac amrywiaeth
5. archwilio rôl menter/creu cyfoeth a datblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuriaidd
6. adnabod eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel gweithwyr cyflog a dysgu sut i ddilyn arferion gwaith diogel
7. defnyddio profiadau â ffocws ar waith i ddeall yn well pa sgiliau a rhinweddau personol y mae cyflogwyr eu heisiau

11. cynllunio, gosod targedau ac adolygu/myfyrio ynghylch dysgu
12. rheoli amser â rhywfaint o annibyniaeth
13. addasu i ystod o sefyllfaoedd newydd
14. gallu cymhwyso dysgu i ystod o sefyllfaoedd yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol
15. dangos ymwybyddiaeth newydd am anghenion cwsmeriaid.

Arweiniad

8. cael gafael ar ganllawiau realistig, diduedd ynghylch dysgu, gyrfaoedd a materion cysylltiedig â gwaith
9. deall y rhagolygon a'r patrymau dilyniant yn y swyddi sydd o ddiddordeb iddynt
10. archwilio eu syniadau gyrfa a'r effeithiau posibl ar eu bywydau
11. nodi unrhyw rwystrau rhag dyheadau'r dyfodol a chynllunio'n feddylgar sut y gellid eu goresgyn


Gwneud a gweithredu penderfyniadau


12. nodi, deall a gwneud penderfyniadau am lwybrau unigol mewn addysg, hyfforddiant a gwaith
13. gallu egluro eu dewisiadau yn eithaf manwl i'w cyfoedion ac i oedolion priodol
14. adolygu gwybodaeth gyfredol amdanynt eu hunain mewn perthynas â dysgu a gwaith er mwyn trefnu cynllun gyrfa
15. hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol wrth wneud ceisiadau a mynychu cyfweiliadau.



Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

1. weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol mewn ystod eang o leoliadau
2. gwranddo'n astud ac ymateb yn effeithiol, gan gyfrannu'n arwyddocaol i drafodaethau
3. cael gafael yn annibynnol ar ystod eang o ffynonellau ar gyfer cymorth, cefnogaeth a chynghor
4. dethol, crynhoi a chyfosod syniadau a gwybodaeth allweddol
5. dethol, cymharu a dehongli data o amryw o sefyllfaoedd sy'n berthnasol i'w hanghenion eu hunain 

6. defnyddio TGCh yn ddetholus ac yn effeithlon i ganfod, datblygu a chyfosod gwybodaeth fel ei bod yn addas at ddiben 
7. archwilio eu tybiaethau a'u dyheadau eu hunain a phobl eraill a gwneud y defnydd gorau o hyn wrth wneud penderfyniadau
8. defnyddio dulliau arloesol i nodi cyfleoedd a datrys problemau
9. cyfathrebu'n hyderus ac yn ddealladwy yn Gymraeg neu Saesneg, fel bo'n briodol, am yrfaoedd a'r byd gwaith mewn ystod eang o gyd-destunau


Ystod

Dylai dysgwyr allu datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwerthoedd drwy ystod o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt:

Cyflawniad personol

1. adolygu eu cyflawniadau a'u cynlluniau gwaith/gyrfa/astudio
2. parhau i ddatblygu curriculum vitae (CV) parhaus sy'n seiliedig ar eu cyflawniadau, eu profiadau, eu diddordebau a'u sgiliau er mwyn cryfhau eu cyflogadwyedd

Ceisio gwybodaeth

3. ymchwilio a gwerthuso ystod o wybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur yng Nghymru 

4. archwilio sut y gallai cyfleoedd ym Mhrydain, Ewrop a gweddill y byd effeithio ar eu syniadau gyrfa
5. ehangu eu gwybodaeth am gyfleoedd busnes a hunangyflogaeth er mwyn cyfoethogi eu gorwelion gyrfa
6. trafod effaith tueddiadau cyfredol mewn patrymau gwaith ar eu cynlluniau gyrfa

Deall y byd gwaith

7. trafod y manteision y gall amrywiaeth eu cyflwyno i'r gweithle a'r anfanteision y gellir eu creu drwy stereoteipio
8. ymroi i weithgareddau sy'n annog ymagwedd entrepreneuriaidd at waith a chreu cyfoeth

- 10. cyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain yn effeithiol mewn amryw ddulliau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd
- 11. cynllunio, gosod targedau ar draws sawl cyfnod amser ac adolygu/myfyrio ynghylch dysgu
- 12. rheoli amser yn annibynnol a chwrdd â therfynau amser tynn
- 13. addasu i sefyllfaoedd newydd heriol
- 14. gallu cymhwyso dysgu mewn ystod eang o leoliadau cyfarwydd ac anghyfarwydd
- 15. dangos ymwybyddiaeth gynyddol am anghenion cwsmeriaid.

- 9. deall eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel gweithwyr cyflog a gwybod sut i ddilyn arferion gwaith diogel
- 10. defnyddio profiadau â ffocws ar waith i gael dealltwriaeth well o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyflogwyr ac unrhyw oblygiadau i'w cynlluniau gyrfa/gwaith

Arweiniad

- 11. cael gafael ar a dadansoddi canllawiau realistig, diduedd ar lwybrau addysg/gyrfa/gwaith
- 12. ystyried goblygiadau eu syniadau gyrfa o ran eu sefyllfa ariannol a'u ffordd o fyw

Gwneud a gweithredu penderfyniadau

- 13. deall, dadansoddi a gwneud penderfyniadau am lwybrau unigol mewn addysg, hyfforddiant a gwaith
- 14. gallu egluro a chyfiawnhau eu dewisiadau i'w cyfoedion ac i oedolion priodol
- 15. adolygu, cyfosod a chyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain mewn perthynas â dysgu a gwaith er mwyn cyd-drafod cynllun gyrfa
- 16. hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol gan gynnwys ceisiadau a mynychu cyfweiliadau.

Nodiadau